Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2016

Amser: 09.20 – 12.11

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3783

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Mike Hedges AC Eluned Morgan AC David Rees AC Steffan Lewis AC Nick Ramsay AC
Tystion:	Huw David, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Mari Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Yr Athro Marcus Longley, Prifysgol De Cymru David Robinson, Community Links Anita Charlesworth, Y Sefydliad Iechyd Yr Athro Ceri Phillips, Prifysgol Abertawe
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Georgina Owen (Dirprwy Glerc)

	Owen Holzinger (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd) Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Reckless AC.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mari Thomas, Swyddog Polisi Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC, y Cynghorydd Huw David (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr), Llefarydd CLlLC ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Cynghorydd Anthony Hunt (Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen), Dirprwy Lefarydd CLlLC ar gyfer Cyllid ac Adnoddau.

3.2 Cytunodd CLlLC i ddarparu nodyn ar ei asesiad o ddigonolrwydd y gyllideb ar gyfer 2017-18 i ymdrin â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

4 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 5

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David Robinson, OBE, Uwch Gynghorydd Community Links, yr Athro Ceri Phillip, Athro Economeg Iechyd, Prifysgol Abertawe, yr Athro Marcus Longley, Cyfarwyddwr Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ac Athro Polisi Iechyd Cymhwysol, Prifysgol De Cymru ac Anita Charlesworth, Cyfarwyddwr Ymchwil ac Economeg, y Sefydliad Iechyd.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18: Trafod y dystiolaeth

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

7 Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2017-18: Ystyried yr adroddiad drafft

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft â mân newidiadau.

8 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru

8.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr ar weithredu Deddf Cymru 2014 yn y flwyddyn newydd.

9 Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Trafod y cyngor arbenigol

9.1 Trafododd y Pwyllgor bapur ar gyngor arbenigol ar gyfer y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) a phenderfynodd peidio â phenodi cynghorydd arbenigol.